**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-06-01(p.1)**

**Dyddiad:** **28 Mawrth 2001**

**Teitl:** **Datblygiadau ym maes Telefeddygaeth a Theleofal yng Nghymru**

**Diben:** **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y gwaith diweddaraf sy'n mynd rhagddo ar y Rhaglen Datblygu Telefeddygaeth**

**Crynodeb a Gweithredu:**

1. Mae'r papur hwn yn sôn am ddatblygiadau ym maes Telefeddygaeth a Theleofal yng Nghymru ac yn gwahodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i:

- Nodi hynt y Rhaglen **Datblygu Telefeddygaeth**
- Ystyried pa ddatblygiadau pellach fyddai'n briodol ym maes Telefeddygaeth a Theleofal yng Nghymru.

**Amseru:**

2. Cyflwynir y papur hwn ar gais y Pwyllgor.

**Cefndir:**

**Gwaith sydd ar y gweill:**

3. Yn dilyn cyflwyno papur **HSS-19-00(p.1)** i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2000, cymerwyd nifer o gamau breision yn y Rhaglen Datblygu Telefeddygaeth ddwy flynedd, a gyhoeddwyd gan Jane Hutt ac Edwina Hart ac y dyrannwyd £900,000 o gyllid canolog ar ei chyfer.

4. Penodwyd dau aelod allweddol o staff ac maent eisoes wedi dechrau yn eu swyddi (5 Mawrth 2001). Byddant yn gyfrifol am:-

- sefydlu'r prosiectau arddangos Telefeddygaeth
- sefydlu'r rhwydwaith fideogynadledda Iechyd
- datblygu'r Strategaeth Delefeddygaeth ar gyfer y pump i ddeng mlynedd nesaf

**Prosiectau Arddangos:**

5. Anfonwyd WHC (2001) 010 "Using Technology to Transform Local Care - Invitation to Bid for Grant Aid of Tele-medicine Developments" at yr NHS yng Nghymru ar 9 Mawrth 2001. Fe’i hamgaeir yn Atodiad 1. Mae’r cylchlythyr hwn yn gwahodd consortia o gyrff yr NHS a’u partneriaid i wneud cais am gymorth grant i gynorthwyo datblygiad cynlluniau peilot graddfa lawn mewn gwasanaethau dermatoleg a mân anafiadau. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 30 Ebrill 2001 a chyhoeddir y canlyniadau ddechrau Mehefin 2001.

**Y Rhwydwaith Fideogynadledda:**

6. Bydd rhoi’r rhwydwaith o gyfleusterau **fideogynadledda Iechyd** ar waith yn dibynnu’n llwyr ar drefnu contract fframwaith ar gyfer cysylltiadau telathrebu (Internet Protocol - Virtual Private Network - IP/VPN). Rydym ar fin llunio cytundeb â Chyflenwr. Datblygwyd achos busnes enghreifftiol ar gyfer cyrff lleol i nodi’r safle a’r maint gorau ar gyfer y cyfleusterau. Bwriedir rhoi’r cysylltiadau a’r dechnoleg gyfathrebu ar waith erbyn mis Tachwedd 2001.

**Datblygu strategaeth:**

7. Aethpwyd ati i ddechrau nodi cwmpas a chynnwys **Strategaeth Telefeddygaeth a Theleofal Cymru Gyfan**. Gellid paratoi drafft i’w ystyried erbyn mis Tachwedd 2001. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar y ffordd y gall defnyddio technoleg helpu i roi Gwella Iechyd yng Nghymru ar waith. Mae cysylltiadau â’r Adran Iechyd a’r Gweinyddiaethau eraill yn cadarnhau bod strategaethau tebyg yn cael eu datblygu. Gallai’r prif elfennau gynnwys:

- Adolygu systemau Telefeddygaeth a Theleofal presennol yng Nghymru
- Adolygiad cyffredinol o systemau yn y DU, Ewrop a mannau allweddol eraill
- Hybu ymwybyddiaeth ac addysg yn yr NHS ac ymhlith ei bartneriaid
- Ystyried potensial datblygu a chyfleoedd i gydweithio yn yr NHS a’r cyrff sy’n bartneriaid iddo, megis Llywodraeth Leol, Addysg Bellach ac Uwch a’r sector gwirfoddol
- Perthynas â mentrau allweddol eraill yr NHS yng Nghymru a dibyniaeth arnynt
- Canllawiau ynghylch materion yn ymwneud â Diogelwch, Cyfrinachedd ac ati
- Gan ddefnyddio "Mynediad a Rhagoriaeth" yn fan cychwyn, gwneud gwaith dadansoddi tueddiadau i roi darlun o **ofal drwy gymorth technoleg** dros y 5 i 10 mlynedd nesaf
- Meithrin cysylltiadau a chyfranogiad ym myd Diwydiant
- Sefydlu mecanweithiau ar gyfer llunio a lledaenu canllawiau a phrotocolau clinigol
- Cydnabod manteision
- Opsiynau datblygu strategol gydag achosion busnes dangosol

**Ystyried: Cynnydd a Her:**

Beth yw'r manteision yr ydym am eu gweld? - a'r Effaith?

8. Mae corff cynyddol o dystiolaeth academaidd a gadarnheir drwy brofiad ymarferol yng Nghymru, y DU a thu hwnt y gall cyflwyno TGCh fod yn fodd o drawsnewid yn sylweddol arferion sydd eisoes ar waith, mecanweithiau darparu a chanlyniadau. Y prif feysydd y mae angen eu hystyried yw:

- **Trawsnewid profiad y Claf**: - er enghraifft, llai o deithio, gwella ansawdd ymgynghori, ei gwneud yn haws i bobl gael gwybodaeth amdanynt eu hunain, eu gofal iechyd a'u hiechyd. Gellid galluogi perthnasau a chyfeillion i ymweld â chleifion o bell mewn ysbytai neu gartrefi nyrsio drwy ddefnyddio Teleymweld.

- **Trawsnewid arferion gweithwyr iechyd proffesiynol**:- er enghraifft, llai o deithio a'i gwneud yn haws i weithwyr iechyd proffesiynol gael gwybodaeth wrth eu gwaith a phan fo'i hangen. Bydd hyn yn fodd o alluogi aelodau o dimau clinigol i rannu gwybodaeth ac felly newid y sgiliau a chaniatáu i wasanaethau gofal iechyd gael eu darparu'n fwy hyblyg.

- **Trawsnewid prosesau rheoli**:- er enghraifft, llai o amser teithio a chynnig ystod o wasanaethau electronig newydd megis e-fasnach ac e-gaffael cyflenwadau iechyd, a rhannu gwybodaeth yn well at ddibenion rheoli drwy ddatblygu mewnrwyd.

**Pa gamau ymarferol y gellid eu cymryd i fwrw ymlaen â'r gwaith yng Nghymru?**

9. Yn sgil anfon y Cylchlythyr Iechyd at yr NHS cafwyd nifer o ymholiadau ynghylch cymorth ar gyfer amryw o gymwysiadau Telefeddygaeth mewn arbenigeddau ac eithrio'r rhai y soniwyd amdanynt (Dermatoleg a Mân Anafiadau). Mae'r diddordeb hwn yn nodweddiadol o'r hyn sy'n digwydd yn yr NHS ac ymhlith ei bartneriaid. Mae disgwyl y bydd defnyddio TGCh ym maes gofal iechyd a gosod yr IP/VPN yn creu mwy o gymwysiadau Telefeddygaeth a fideogynadledda. Gallai'r rhain gynnwys:-

- Datblygu cymwysiadau gwasanaethau i gleifion allanol ymhellach gan arwain yn y pen draw at ddarparu gwasanaeth rhithwir i gleifion allanol. Gellid hefyd symud i gyfeiriad ymweliadau electronig gan gynnwys teleymweld, cynadleddau achos clinigol a theleaddysg a datblygu proffesiynol drwy ddysgu gydol oes rhithwir.

10. Mae pobl yn cydnabod fwyfwy ledled y DU y gall defnyddio technolegau eraill gyfrannu at drawsnewid profiadau cleifion a gweithwyr proffesiynol yn y system gofal iechyd. Bydd angen monitro datblygiadau yn y sector telathrebu masnachol yn ofalus a'u hadlewyrchu yn y Strategaeth Telefeddygaeth a Theleofal sy'n datblygu. Ymhlith y datblygiadau a allai fod o ddiddordeb arbennig i Gymru mae'r canlynol:

- Yn sgil chwyldro teledu digidol (gan gynnwys yr elfen ryngweithiol) bydd modd i bobl ddod o hyd i sianeli arbennig sy'n trafod materion iechyd ac adnoddau'r rhyngrwyd, gyda'r NHS yn defnyddio'i arbenigedd a'i brofiad i roi nod barcud i'r ffynonellau a'r deunyddiau gorau.

- Bydd technolegau cyfathrebu symudol yn dod yn fwyfwy pwerus ac fe allent achub y blaen ar gyfrifiaduron fel ffordd o ddefnyddio gwasanaethau'r Rhyngrwyd.

- Ar hyn o bryd gellir cael gwasanaeth gofal iechyd drwy un alwad ffôn i NHS Direct. Dyma ffordd o roi mwy o ddewis i gleifion wrth iddynt ddefnyddio'r NHS. Gellid ymestyn hyn drwy ddefnyddio technoleg, er enghraifft gallai cleifion anfon e-bost at eu nyrs neu feddyg teulu neu eu ffonio i gael cyngor neu wneud apwyntiad ar-lein a derbyn canlyniadau profion gartref. Os bydd y cyhoedd yn manteisio ar y cyfleusterau fideogynadledda rhad sydd ar gael efallai y bydd angen ystyried mynediad fideogynadledda i NHS Direct ar-lein.

- Dewis cynyddol o dechnolegau newydd yn canolbwyntio ar Ofalu am yr Henoed (neu grwp tebyg) yn y cartref a fydd yn eu galluogi i fyw'n annibynnol a'i gwneud yn haws rhoi ôl-ofal iddynt.

11. Mae'r term e-Fasnach yn gyffredin mewn trafodion ariannol ar-lein ym myd busnes. Efallai ei bod yn bryd bellach i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried defnyddio'r term e-Iechyd. Gellid defnyddio'r term hwn i ddisgrifio'n gyffredinol yr ystod o gymwysiadau Iechyd electronig newydd a gweithgareddau cysylltiedig. Byddai hefyd yn dangos i ddatblygwyr cymwysiadau iechyd a chyflenwyr technoleg bod yr NHS yng Nghymru a'r Cynulliad wedi ymrwymo i weithredu a defnyddio cymwysiadau a thechnolegau newydd.

**Cydymffurfio:**

12. Mae'r rhaglen waith a nodir yn y papur hwn wedi'i threfnu o fewn Cyfarwyddiaeth yr NHS, gyda'i gweithgareddau a nodir yn Adran 2 o Ddeddf yr NHS 1977. Trosglwyddwyd pwerau'r Ddeddf honno i'r Cynulliad ac fe'u dirprwywyd i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (adran 40) yn rhoi i'r Cynulliad bwerau i wneud unrhyw beth y cyfrifir ei fod yn hwyluso arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, neu yn gydnaws â hynny neu'n atodol i hynny wneud unrhyw beth sy'n ei gwneud yn haws iddo arfer ei swyddogaethau. Nid oes materion yn codi ynghylch rheoleidd-dra na phriodoldeb. Mae Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol wedi gweld y papur hwn ac wedi'i gymeradwyo.

**Goblygiadau Ariannol:**

13. Nid oes goblygiadau ariannol newydd yn deillio o'r adroddiad hwn. Mae pob menter a gweithgaredd a nodir eisoes wedi'u cymeradwyo a darparwyd yn llawn ar eu cyfer. Mae NHSF a'r Is-adran Cynllunio Ariannol wedi gweld elfennau ariannol y cyflwyniad hwn, ac maent yn fodlon arnynt.

**Themâu trawsbynciol:**

14. Bydd y Rhaglen Datblygu Telefeddygaeth a Theleofal yn cyfrannu'n sylweddol at fenter Cymru Ar-

lein/Wales Online a gallai fod yn esiampl i sectorau eraill yng Nghymru, yn arbennig::

- Mae e-Weinidog Cymru, Andrew Davies, sy’n gyfrifol am Cymru Ar-lein a datblygiad Fframwaith yr Oes Wybodaeth ar gyfer rhoi e-Lywodraeth ar waith yng Nghymru hefyd wedi’i benodi’n Llywydd Rhwydwaith Tele-Ranbarthau Ewrop. Sefydlwyd Rhwydwaith Tele-Ranbarthau Ewrop i hyrwyddo datblygiad technoleg gwybodaeth yn rhanbarthau Ewrop er mwyn cryfhau eu gallu i gystadlu a chreu mwy o swyddi. Sefydlwyd pedwar grwp rhanbarthol ac maent yn rhannu arfer da wrth ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion, gofal iechyd a rhwydweithio i gwmnïau bach a chanolig ac addysg a hyfforddiant.
- Efallai y bydd cyfle i’r Cynulliad Cenedlaethol a’r NHS a’i bartneriaid wneud cyfraniad arwyddocaol i esblygiad y grwp a’i weithgareddau ledled Ewrop.

15. Yn ogystal â’r buddsoddiad yng nghyfleusterau fideogynadledda’r Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol, mae’r Cynulliad hefyd wedi cyfrannu at fideogynadledda yn y sector addysg bellach ac uwch drwy Rwydwaith Fideo Cymru. Mae’r rhwydwaith hwn yn dosbarthu ac yn cefnogi stiwdios fideogynadledda a chyfleusterau fideo eraill i bob Sefydliad Addysg Uwch a Choleg Addysg Bellach ledled Cymru. Mae hyn oll yn cyd-fynd â datblygiad yr NHS a’r hyn a ddefnyddir ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Gweithredu:**

16. Gwahoddir y Pwyllgor i:-

- nodi hynt y Rhaglen Datblygu Telefeddygaeth
- cymeradwyo cynnwys bras y Strategaeth
- ystyried pa adroddiadau a/neu arddangosiadau fyddai’n briodol ar gyfer datblygu Telefeddygaeth a Theleofal yng Nghymru
- ystyried pa gyfraniad y gallai’r Cynulliad Cenedlaethol a safleoedd Arddangos Telefeddygaeth ei wneud i raglen a Grwp Rhwydwaith TeleRanbarthau Ewrop
- nodi bodolaeth a datblygiad cyfatebol Rhwydwaith Fideo Cymru
- ystyried mabwysiadu e-Iechyd i ddisgrifio’r ystod o gymwysiadau Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu newydd ym maes gofal iechyd.

Jane Hutt

Mawrth 2001